

## Y Llyfr gan Pegi Talfryn – fersiwn y De

“Does dim pwynt i bethau Cymraeg. Dim ond drwg sy’n dod o Gymru.”

Saesneg roedd Mam yn siarad, wrth gwrs.

Roedd **bysedd** Debra yn **brifo**. Roedd hi wedi codi hen lyfr o’r silff dop, ond roedd y llyfr wedi **llosgi** ei bysedd. Daeth Mam i mewn pan glywodd hi Debra yn **gweiddi**.

**Rhwymodd** Mam y llyfr mewn blanced. “Dyw’r llyfr yma ddim i ti,” meddai hi. Roedd Debra yn gwybod o edrych ar wyneb Mam doedd dim siawns cael dysgu mwy.

Roedden nhw’n byw yn Newcastle upon Tyne. Roedd Debra yn 16 oed. Roedd Mam, Janet Williams, yn dod o Gymru, ond doedd hi ddim eisiau siarad am y lle. **Doedd hi byth yn mynd** i Gymru a byth yn siarad am y teulu yno. Doedd Debra ddim yn gwybod pwy oedd ei thad hi.

Y diwrnod hwnnw penderfynodd Debra ddysgu Cymraeg. Roedd hi’n ddigon hawdd, gyda phopeth ar-lein.

Dechreuodd Mam fynd yn dost eto. Yr hen gancr wedi dod yn ôl. Roedd Debra yn lwcus o gael teulu Alice, ei ffrind gorau hi, i helpu. Ar ôl i Mam fynd i’r hosbis, aeth Debra i fyw gyda nhw. Yn anffodus, welodd Mam ddim Debra yn cael ei lefel ‘A’.

Roedd y gwaith o glirio’r tŷ yn anodd. Roedd Debra yn gwybod ble roedd Mam yn cadw’r papurau pwysig, ac roedd hi’n gallu ffeindio’r **dystysgrif geni** ar gyfer yr **angladd**. Cafodd hi sioc o weld taw Sioned Williams oedd enw Mam, ddim Janet. Roedd hi’n dod o bentre Cwrt-y-Cadno yn Sir Gaerfyrddin.

Ffeindiodd Debra’r llyfr mewn blanced hefyd. Roedd hi’n rhy ofnus i dynnu’r blanced, ond doedd hi ddim eisiau taflu’r llyfr.

Penderfynodd hi fynd i Brifysgol Aberystwyth a chario ymlaen gyda dysgu Cymraeg. Aeth hi i **neuadd** Gymraeg.

Doedd hi erioed wedi siarad Cymraeg gyda neb o’r blaen. Roedd hi’n gwybod yn ei phen hi sut i siarad, ond doedd y geiriau ddim eisiau dod allan. Ond o’r diwedd cliciodd popeth. Gwnaeth hi ffrindiau, a siarad Cymraeg gyda nhw. Ei ffrind gorau yno oedd Bethan.

Roedd car gyda Bethan ac roedd hi’n hapus i fynd â Debra i weld Cwrt-y-Cadno, os oedd Debra’n talu am y petrol. Dysgodd Debra fod **dewin** enwog o’r 19fed ganrif, Dr. John Harries, yn dod o’r lle.

Diwedd tymor. Roedd Debra wedi penderfynu mynd yn ôl i Newcastle i aros gyda Alice.

Gwnaeth hi’r siopa munud olaf, a dechrau pacio i fynd.

Yn sydyn, **sylweddolodd** hi rywbeth. Roedd hi’n siarad Cymraeg. Roedd hi’n byw bywyd Cymraeg. Roedd hi’n teimlo’n barod nawr i edrych ar y llyfr.

Tynnodd hi’r llyfr o’r blanced. Doedd e ddim yn llosgi ei bysedd hi. Dechreuodd hi ddarllen:

*Mae'r llyfr hwn yn perthyn i Dr. John Harries ac i blant a disgynyddion Dr. Harries.*

Doedd dim angen i Debra ddarllen. Roedd hi'n teimlo'r pŵer yn dod i mewn i'w chorff hi. Roedd hi'n gweld **cysgodion** a wynebau doedd ddim yno o'r blaen. Roedd hi'n clywed **lleisiau** yn y gwynt. O'r diwedd roedd hi'n gwybod pwy - a beth - oedd hi.

#### **Geirfa**

bysedd - *fingers*

brifo - *to hurt*

llosgi - *to burn*

gweiddi - *to shout, to yell*

rhwymo - *to wrap*

Doedd hi byth yn mynd - *she never went*

tystysgrif geni - *birth certificate*

angladd - *funeral*

neuadd - *hall*

dewin - *sorcerer, wizard*

sylweddoli - *to notice*

disgynyddion - *descendants*

cysgodion - *shadows*

lleisiau - *voices*